

# Wythnos Gwaith Ieuenctid

## Beth sy'n digwydd yng Ngogledd Cymru

## 1 – 7 Tachwedd 2009

## Digwyddiadau gwych i bobl ifanc ar draws Cymru

**GwaithIeuenctidCymru**

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cydlynwyd gan Gangen Marchnata a Strategaeth Gwaith Ieuenctid Ffôn: 029 2080 1344 E-bost: ywsmailbox@wales.gsi.gov.uk

# Diolch Sam.... Mae'n mynd i fod yn wych!

## Peidwch â methu Wythnos Gwaith Ieuenctid

Rhwng 1 – 7 Tachwedd, rydym yn cynnal llawer o ddigwyddiadau arbennig ar hyd a lled Cymru i ddathlu Wythnos Gwaith Ieuenctid – ac mae hynny ar ben y cannoedd ar gannoedd o weithgareddau, prosiectau a mentrau sydd fel arfer yn digwydd bob wythnos yng Nghymru!

Felly, os ydych chi'n berson ifanc sy'n edrych am rywbeth hynod ddiddorol a hwyliog i'w wneud, chwiliwch am y digwyddiadau yn eich ardal chi ac ewch yno!

Ewch yno, cewch amser mor dda, byddwch chi'n diolch i Sam am wneud i chi fynd!



## Felly, pwy yw Sam, rydyn ni'n eich clywed yn gofyn?

**Wel, mae Sam yn cynrychioli pob un ohonom sy'n ymwneud â Gwaith Ieuenctid.**

Nid yw Sam yn seren y byd pop,  yn eicon chwaraeon, nac yn seren ar y teledu ond i nifer o bobl ifanc, mae Sam hyd yn oed yn fwy arbennig. Mae Sam yn Weithiwr Ieuenctid sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau newydd a phrofi pethau newydd.

Gall Sam wneud gwahaniaeth!



## Allech chi fod y Sam nesaf?

**Mae miloedd o 'Sams' allan yno, yn gweithio'n ddiflino dros bobl ifanc dan eu gofal a gallech chi fod yn un o'r rhain.**

Mewn ffaith, ar y cyfrif diwethaf, roedd 20,000 'Sam' yn ysbrydoli dros 200,000 o bobl ifanc yn y Gwasanaeth Ieuenctid. Ond mae angen mwy. Rydym yn chwilio am bobl ifanc gyda'r nodweddion cywir i fod yn 'Sam' newydd. Ydych chi'n gymwys i'r gwaith?

### Gyrfâu mewn Gwaith Ieuenctid

I gael mwy o wybodaeth am yrfâu a gwirfoddoli mewn gwaith ieuenctid, ewch i:

**www.DiolchSam.org.uk**

# Pobl ifanc yn cofrestru ar gyfer cystadleuaeth wych!

**Dyna syniad da ar gyfer Wythnos Gwaith Ieuenctid. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn yn rhoi cyfle i'r clybiau ieuenctid yn yr ardal gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ennill £100 i'w grŵp a hysbysebu eu digwyddiad yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid ar yr un pryd!**




I gymryd rhan, y cwbl sy'n rhaid iddynt ei wneud yw llunio a chreu arwydd ochr ffordd sy'n denu'r llygad yn effeithiol i hysbysebu'r digwyddiad y maent yn ei gynnal.

Felly, os byddwch yn gweld un o'r arwyddion yma yn ystod eich taith o amgylch Ynys Môn, byddwch yn gwybod mai esiampl arall ydyw o'r ffordd y gall pobl ifainc ffrwyno eu gallu creadigol a chyflawni cymaint wrth gydweithio.

Ond cofiwch, dyna bwrpas Wythnos Gwaith Ieuenctid – pobl ifainc yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd a gwneud gwahaniaeth! Edrychwch i weld pa ddigwyddiadau sydd ar droed mewn ardal agos i chi.

**Diolch Sam.**
**Doeddwn i erioed wedi meddwl y byddai dysgu pethau newydd yn gymaint o hwyl**

# Amddiffyn eich hawliau



**Yn 2004, euthum ati i fabwysiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail ar gyfer ein gwaith llunio polisïau i gyd i blant a phobl ifainc.**

Dan y CCUHP bydd hawl gan bob person ifanc dderbyn addysg o ansawdd da, mynediad i wybodaeth gywir a llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

- Addysg o ansawdd da (Erthyglau 28 a 29)
- Mynediad i wybodaeth gywir (Erthyglau 13 ac 17)
- Cyfranogi rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12)
- Gofal iechyd a safon dda o fyw (Erthyglau 24 a 27)
- Chwarae a hamdden (Erthyglau 15 a 31)
- Defnyddio iaith ac arferion eich teulu (Erthygl 31)
- Triniaeth deg yn y system gyfiawnder troseddol (Erthyglau 37 a 40)
- Gwybod beth yw'r hawliau hynny (Erthygl 42).

I gael rhagor o wybodaeth am y CCUHP ac i gael rhestr lawn o erthyglau'r confensiwn, edrychwch ar:

www.cliconline.co.uk/uncrc_cymraeg

# Gallwch weld bron i 400 o ddigwyddiadau ar-lein

# DiolchSam.co.uk

Cofiwch, dim ond arweiniad yw'r rhestr yma i'r hyn sy'n digwydd yn ystod Wythnos Gwaith Oedolion. I weld y rhestr gyflawn ewch i **DiolchSam.co.uk** Fe welwch wybodaeth am bron i 400 o ddigwyddiadau, a bydd nifer o ddigwyddiadau newydd wedi'u hychwanegu ar ôl i'r arweiniad yma fynd i'r wasg.

Felly, i gael y rhestr ddiweddaraf o ddigwyddiadau – gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â Sam! Os na allwch weld unrhyw beth yn y rhestr sy'n digwydd yn eich cymdogaeth chi, cysylltwch â'r ardal isod, a byddwn yn eich cysylltu â'ch clybiau neu brosiectau lleol.

## Diolch Sam – am gadw'r hwyl i fynd drwy'r flwyddyn gron!

Cofiwch, gallwch ddysgu sgiliau newydd, cyfarfod ffrindiau a chael hwyl drwy'r flwyddyn gron, nid yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid yn unig. Rhowch gynnig arni, cysylltwch â ni isod a chewch glywed am y clybiau a'r gweithgareddau sy'n digwydd ar eich stepen ddrws drwy'r flwyddyn gron.

## Sector Gwirfoddol

### CWVYS

Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru yw'r corff ymbarél i fudiadau ieuenctid gwirfoddol. Mae'r rhain yn cynnwys mudiadau ieuenctid unffurf a chenedlaethol a mudiadau ieuenctid lleol sy'n darparu amrediad eang o weithgareddau i bobl ifanc.

Ffôn: 029 2047 3498 www.cwvys.org.uk/cy

## Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol

**Conwy**
Ffôn: 01492 575051
www.conwy.gov.uk

**Gwynedd**
Ffôn: 01286 679190
www.gwynedd.gov.uk

**Sir Ddinbych**
Ffôn: 01745 345234
www.denbighshire.gov.uk

**Sir y Fflint**
Ffôn: 01352 704032
www.fflintyrifanc.co.uk
youthservice@flintshire.gov.uk

**Wrecsam**
Ffôn: 01978 297571
www.wrexham.gov.uk

**Ynys Môn**
Ffôn: 01248 752938
www.ynysmon.gov.uk



## CONWY

### BAE COLWYN

**Llyfrgell Bae Colwyn**
Ffordd Coetir Orllewinol, Bae Colwyn, LL29 7DH

**Gwnewch SŴN**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9.30pm*
Dewch i "Wneud SŴN"! Mae'n ddigwyddiad cerddoriaeth a chelfyddyd i bobl ifanc. Bydd bandiau ifanc lleol yn chwarae a bydd arddangosfa o waith celf pobl ifanc. Dewch i weld y llyfrgell mewn golau newydd ac i wneud SŴN!!
**Ffôn:** Sharon Campbell 01492 535961
**E-bost:** sharon.campbell@conwy.gov.uk

---

**Canolfan Ieuenctid Bae Colwyn**
Ffordd Douglas, Bae Colwyn LL29 7PE

**Coginio'n rhad (Ready Steady Cook)**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 10am – 3pm. cynhelir y prosiect bob dydd Mercher (Medi-Rhagfyr)*
Rhan o brosiect parhaus gyda phobl ifanc o Ysgol Gogarth. Mae gan bob un o'r bobl ifanc 14-15 oed anableddau dysgu ac maent yn gweithio tuag at gymhwyster RhyCA (OCN) mewn sgiliau coginio sylfaenol. Byddant yn cynllunio, yn paratoi a choginio pryd 3 cwrs gyda dim ond £3 yr un. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Peter Pugh 01492 863040
**E-bost:** peter.pugh@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

**Dathlu llwyddiant**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 7pm – 9pm.*
Bloedd fawr! Llongyfarchiadau enfawr! Llwyddiant aruthrol! Gwenu fel giât! Mae'r grŵp Meddwl yn dathlu ei lwyddiannau ac yn estyn diolch i'r grwpiau a'r unigolion hynny sydd wedi helpu pobl ifanc i ennill achrediad drwy Wobr Dug Caeredin. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda
**Ffôn:** Ann Smith 01492 539674
**E-bost:** ann.d.smith@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

**Noson 'Oscars' Ieuenctid** (i'w gadarnhau)
*Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 7pm – 10.30pm*
Digwyddiad mawreddog i ddathlu llwyddiannau pobl ifanc ledled Ardal Bae Colwyn. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Sharon Campbell 01492 535961
**E-bost:** sharon.campbell@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

**Coginio ar gyllideb**
*Dydd Gwener 18 Medi i Ddydd Gwener 20 Tachwedd, 10am – 2.30pm. bob dydd Gwener (seibiant dros hanner tymor)*
Fel rhan o brosiect coginio gydag Ysgol y Gogarth byddwn yn cynnal sesiwn 'coginio ar gyllideb' gyda myfyrwyr o'r ysgol, sydd oll a rhyw anabledd. Bydd y grŵp yn paratoi dau bryd (un prif gwrs ac un pwdin), ond rhaid i'r rhain fod yn iachus ac o fewn cyllideb. Caiff y grŵp cyfan ei achredu am gymryd rhan yn y prosiect ac am ddysgu sgiliau gwerthfawr ar fyw'n annibynnol. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Peter Pugh 01492 863040
**E-bost:** peter.pugh@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

**Clwb Ieuenctid Rose Hill**
286 Ffordd Abergele, Hen Golwyn,
Bae Colwyn LL29 9LN

**Mae popeth wedi mynd o'i le**

*Dydd Iau 5 Tachwedd i Ddydd Gwener 6 Tachwedd, 10.30am – 2.30pm*

Hoffem i bobl ifanc gyflwyno sesiwn byr ar rywbeth sy'n eu diddori. Gallai hyn fod yn hobi neu ddiddordeb, neu fater sydd o bwys mawr iddynt ac yr hoffent glywed ymateb pobl ifanc eraill. Defnyddiwch eich creadigrwydd a bydd gweithwyr ieuenctid yno i'ch cefnogi ac i gynnig adnoddau os oes angen. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Paula Walker 01492 863049
**E-bost:** paula.walker@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

## CYFFORDD LLANDUDNO

**Canolfan Ieuenctid Cyffordd Llandudno**
Teras Brickfield, Cyffordd Llandudno, LL31 9NG

**Cystadleuaeth Poster Yfed a Gyrru**

*Dydd Sul 1 Tachwedd i Ddydd Sadwrn 7 Tachwedd, 7pm*

Byddwn yn cynnal Cystadleuaeth Poster ym mhob un o'n clybiau ieuenctid gyda neges yfed a gyrru i'r ymgyrch Nadolig. Bydd y poster buddugol yn cael gwobr i'r clwb ieuenctid a bydd yn cael ei argraffu a'i ddefnyddio ym mhob clwb. Cefnogir gan Oriel Mostyn, Heddlu Conwy ac 'Arrive Alive'.

**Ffôn:** Petra Crossman-Emms 01492 582365
**E-bost:** petra.crossman.emms@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

## HEN GOLWYN

**Yr Interchange**
Eglwys Sure Hope, 317-319 Ffordd Abergele, Hen Golwyn, Conwy, LL29 9YF

**Taniad**

*Dydd Gwener 4 Medi i Ddydd Gwener 16 Gorffenaf, 7pm – 9pm. Yn rhedeg yn ystod tymor yr ysgol yn unig*

Cynhelir Taniad Ieuenctid bob nos Wener i ddifyrru, herio ac ysbrydoli. Bob wythnos mae gweithgareddau gwahanol, yn cynnwys go-certi a phartïon siocled a chysgu mewn slymiau i godi arian i elusennau! Yma yn Nhaniad rydym am gynnig lle i bobl ifanc Conwy deimlo'n ddiogel, lle i gael sbort a sbri a lle i'w annog i wneud y gorau o'u bywydau.

**Ffôn:** Rachel Sadler 01492 514021
**E-bost:** info@surehope.co.uk
www.surehope.co.uk

## LLANDUDNO

**Bws Symudol Craig y Don**
Maes Parcio Canolfan Gymuned Craig y Don, Craig y Don, Llandudno, Conwy, LL30 1TE

**Mygydau Diwylliannol ar y Bws Symudol**

*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 6.30pm – 7.30pm. mae'r bws symudol yn rhedeg bob dydd Mawrth rhwng 6pm – 8pm*

Bydd bws symudol y gwasanaeth ieuenctid yn y maes parcio ac yn rhedeg cyfres o weithgareddau difyr ar fygydau. Gan ddefnyddio ystod o ddeunyddiau celf a chrefft cewch greu eich mwgwd eich hun yn seiliedig ar wlad o'ch dewis. Caiff y mygydau eu harddangos ar y bws, ac wedyn bydd trafodaeth am ddiwylliannau drwy'r byd. Dewch draw i ymuno yn yr hwyl ac i fod yn greadigol! Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Peter Pugh 01492 863040
**E-bost:** peter.pugh@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

**Canolfan Chwaraeon Ysgol John Bright**
Ffordd Maesdu, Llandudno, Conwy, LL30 1LF

**Bod yn rhan o'r broses benderfyniadau – Ymgynghori a Phobl Ifanc**

*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 5pm – 7pm. Ymgynghoriad unigryw ar y dyddiad hwn*

Bydd 4 o bobl ifanc o ardal Llandudno yn mynychu digwyddiad ymgynghori ble bydd cyfle iddynt gymryd rhan mewn digwyddiad ymgynghori am ysgolion yn eu hardal. Hwn fydd y cyfle cyntaf i'r bobl ifanc i gyd i gwrdd â chynghorwyr lleol ac asiantaethau eraill sy'n gweithio yn Sir Conwy. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Peter Pugh 01492 863040
**E-bost:** peter.pugh@conwy.gov.uk

---

**Clwb Ieuenctid Llandudno**
Tŷ Hapus, Ffordd Penrhyn, Llandudno LL30 1HB

**Sesiwn Ymwybyddiaeth Fyddar i Bobl Ifanc**

*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7.30pm – 9pm. Sesiwn unigryw.*

Sesiwn anffurfiol am Iaith Arwyddion Prydeinig yn defnyddio gwyddor bys. Dysgwch sut i ddweud geiriau syml drwy ddefnyddio'r dechneg hon. Wedyn fe roddir tasg i chi o archebu diod o'ch dewis o'r bar coffi gan ddefnyddio'r iaith arwyddion. Byddwch yn gadael gyda gwell dealltwriaeth o bobl nad ydynt yn medru cyfathrebu ar lafar. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Peter Pugh 01492 863040
**E-bost:** peter.pugh@conwy.gov.uk

**Cwis Gwaith Ieuenctid**

*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 7.30pm – 8.30pm. Digwyddiad cwis unigryw.*

Beth yn union mae Gweithwyr Ieuenctid yn ei wneud? Ydych chi'n treulio'ch amser yn chwarae pŵl, bwyta fferins a gwneud dim arall? Cwis 20 cwestiwn wedi'i ddylunio gan bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid i helpu pobl ifanc i ddeall rôl gweithiwr ieuenctid. Cwis llawn hwyl i ddathlu Wythnos Gwaith Ieuenctid 2009. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Peter Pugh 01492 863040
**E-bost:** peter.pugh@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

**Pêl baentio**

*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 10pm*

Taith pêl baentio wedi'i drefnu drwy Arian Partneriaeth Diogelwch y Gymuned (VLI) sy'n targedu pobl ifanc rydym wedi gweithio gyda hwy ar y stryd yn ardal Llandudno. Defnyddir y teithiau hyn fel modd o gysylltu â phobl ifanc drwy weithgareddau adeiladol a chadarnhaol. Mae defnyddio'r dulliau hyn o gysylltu wedi arwain at ostyngiad o dros 50% mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ar yr ystadau lleol. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Peter Pugh 01492 863040
**E-bost:** peter.pugh@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

**Noson Bandiau Byw**

*Dydd Gwener 6 Tachwedd, 7pm – 10pm. pob mis.*

Cyfle i bobl ifanc arddangos eu talentau drwy gerddoriaeth byw. Mae'r holl grwpiau fydd yn perfformio wedi wynebu anawsterau ar ryw adeg yn eu gyrfaoedd byr, ond wedi dychwelyd am fwy. Ac maent lawer yn gryfach wedi'r profiad. Cyfle gwych i unrhyw un sy'n gwerthfawrogi cerddoriaeth byw, a be' well gan fod yr holl fandiau'n cynnwys pobl ifanc lleol!

**Ffôn:** Peter Pugh 01492 863040
**E-bost:** peter.pugh@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

## LLANRWST

**Canolfan Ieuenctid Llanrwst**
Heol Watling, Llanrwst LL26 0LS

**Noson bandiau**

*Dydd Gwener 6 Tachwedd, 7pm – 10pm*

Rydym yn chwilio am ragor o fandiau newydd i chwarae yn ein noson fandiau gyntaf yma yng Nghlwb Ieuenctid Llanrwst. Mae yma lwyfan a lle i 150 mewn neuadd fawr. Cofrestrwch erbyn 04/10/2009 i gael eich enw ar y posteri cyhoeddusrwydd. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Garth Thomas 01492 642157
**E-bost:** garth.thomas@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

## TOWYN

**Canolfan Ieuenctid Towyn**
Ffordd Towyn, Towyn LL22 9ER

**Noson Tân Gwyllt, Barbeciws a sesiynau celf**

*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Gwener 6 Tachwedd, 6pm – 9pm. Cysylltwch â swyddfa Towyn am ddyddiadau penodol.*

Dathlwch Noson Tân Gwyllt drwy ymweld â'ch Clwb/Prosiect Ieuenctid yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid. Cynigir llwyth o weithgareddau gan gynnwys barbeciws, gemau a sesiynau celf coelcerth wedi'i ailgylchu 3D. Fe'u cynhelir yng Nghanolfan Ieuenctid Abergele, Canolfan Ieuenctid Towyn, prosiect bws symudol gwledig, Clwb Ieuenctid Llanfair TH, Clwb Ieuenctid Llansannan, y prosiect symudol Bae Cinmel a mini-brosiect symudol Pensarn/Belgrano

**Ffôn:** Kris Kordiak / Rachel Spencer-Simmonds 01745 337908
**E-bost:** kristina.kordiak@conwy.gov.uk
www.youngconwy.com

# GWYNEDD

## ABERDARON

**Ysgol Gynradd Crud y Werin**
Aberdaron LL53 8BP

**Noson Gymdeithasol y Gymuned**

*Dydd Iau 5 Tachwedd, 7pm – 9pm. Clwb yn agored bob nos Iau 7pm – 9pm*

Dewch i ymuno â ni am ychydig o hwyl. Mae gennym gwisiau a chystadlaethau chwaraeon yn ogystal â chystadlaethau coginio. Mae'r staff yn edrych ymlaen at gwrdd pawb yn yr ardal. Estynnir gwahoddiad i'r cynghorydd lleol.

**Ffôn:** Edna A Jones 01286 679918
**E-bost:** ednaj@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

## ABERSOCH

**Neuadd Pentref Abersoch**
Abersoch, Gwynedd
**Noson Gymdeithasol Gymunedol**
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 7pm – 9pm. ar agor bob nos Iau 7pm – 9pm, mis Medi – mis Ebrill*
Dewch i ymuno â ni yn ein clwb ieuenctid. Rydym yn cynnal noson agored gyda phob math o sesiynau: coginio, cystadlaethau chwaraeon. Dewch i gwrdd y staff ac i gael hwyl!
**Ffôn:** Edna A Jones 01286 679918
**E-bost:** ednaj@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

## BEDDGELERT

**Craflwyn (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)**
Craflwyn, Beddgelert LL5 4NG
**HeRYRI**
*Dydd Llun 6 Gorffenaf*
Dewch i wneud tân heb fatsis, aros mewn yurt Mongolaidd, abseilio, padellu am aur, pobi bara mewn ffwrn bridd, llongau rhyfel, chwilio am fwyd gwyllt, straeon a malws melys wedi'u tostio ar dân agored, dawnsio gwerin, can io, gwneud rhuwr tarw, lleihau'ch effaith ar y blaned, cipio'r faner, beicio mynydd, a llawer mwy! Y cyfan wrth droed Dinas Emrys, cartref y Ddraig Gymreig.
**Ffôn:** Sioned Jones 01766 510125
**E-bost:** sioned.jones@nationaltrust.org.uk
www.craflwyn.org/iaith/Heryriintro.htm

## BETHESDA

**Canolfan Hamdden Plas Ffrancon**
Ffordd Newydd Coetmor, Bethesda LL57 3DT
**Noson Chwaraeon Lluosog**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7pm – 9pm. Clwb Ieuenctid Mynydd Llandegai (ar agor 19:30-21:30 Llun/Iau)*
Dewch i ymuno yn yr hwyl gyda Holl Glybiau Ieuenctid Dyffryn Ogwen ym Mhlas Ffrancon. Rhowch gynnig ar chwaraeon newydd yn ogystal â chystadlu yn y cystadlaethau clwb arferol. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Delwyn Williams 01248 601515
Lynda Owens 01248 601515
Karen Samuels 01248 601515
Derfel Roberts, Karen Jones 01248 601515
Brian/Ann Williams 01248 601515

## CAERNARFON

**Clwb Ieuenctid Caernarfon**
Canolfan Ieuenctid a Chymunedol, Caernarfon
**Beth sy' mlaen i Gofis Ifanc**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9.30pm. Clwb Ieuenctid Hŷn Caernarfon (ar agor 19:00-21:30, Llun/Iau, blwyddyn 8+)*
Dewch i ymuno yn yr hwyl a gweld beth sydd ar gael i bobl ifanc Caernarfon. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Janice Roberts, Tracey/Barry Williams 01286 673211-4

## CRICIETH

**Neuadd Goffa Cricieth**
Stryd Fawr, Cricieth, Porthmadog LL52 0HB
**Noson Gymdeithasol Gymunedol**
*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Iau 5 Tachwedd, 7.30pm – 9.30pm. Ar agor bob nos Llun a nos Iau 7.30pm – 9.30pm, mis Medi – mis Ebrill*
Dewch i gwrdd â ni yn y clwb. Bydd cymysgedd eang o sesiynau yn cynnwys cystadlaethau a digwyddiadau hyfforddiant theatr. Mae'r staff yn edrych ymlaen at eich cyfarfod!
**Ffôn:** Edna A Jones 01286 679918
**E-bost:** ednaj@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

## LLANBEDROG

**Neuadd Pentref Llanbedrog**
Llanbedrog LL53 7PG
**Noson Gymdeithasol Gymunedol**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 7pm – 9pm. Ar agor bob nos Mercher 7pm – 9pm, mis Medi – mis Ebrill.*
Dewch i gwrdd â ni yn y clwb! Mae gennym gystadlaethau chwaraeon, nosweithiau coginio a chwis. Mae'r staff yn edrych ymlaen at eich cyfarfod a dangos beth sy'n mynd ymlaen.
**Ffôn:** Edna A Jones 01286 679918
**E-bost:** ednaj@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

## MORFA NEFYN

**Canolfan Gymunedol Morfa Nefyn**
Morfa Nefyn, Gwynedd
**Noson Gymdeithasol Gymunedol**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7pm – 9pm. Ar agor bob nos Llun 7pm – 9pm, mis Medi – mis Ebrill.*
Dewch i ymuno â ni! Mae gennym neuadd newydd, felly mae llawer o ddigwyddiadau gwahanol ar y gweill, fel cystadlaethau coginio, chwaraeon a chwisiau. Mae'r staff yn barod i'ch cyfarfod yn y clwb ac i ddangos beth sydd gennym i'w gynnig
**Ffôn:** Edna A Jones 01286 679918
**E-bost:** ednaj@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

## NEFYN

**Canolfan Gymunedol Nefyn**
Nefyn, Gwynedd
**Noson Gymdeithasol Gymunedol**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 7pm – 9pm. Ar agor bob nos Mercher 7pm – 9pm, mis Medi – mis Ebrill.*
Mae'r clwb ar agor i bawb yn yr ardal. Mae gennym ddigonedd o weithgareddau, er enghraifft, cystadlaethau chwaraeon, sesiynau crefft a choginio. Dewch draw am ychydig o hwyl! Mae'r staff yn barod i'ch cyfarfod.
**Ffôn:** Edna A Jones 01286 679918
**E-bost:** ednaj@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

## PORTHMADOG

**Canolfan Hamdden Glaslyn**
Stryd y Llan, Porthmadog LL49 9HW
**Noson Gymdeithasol Gymunedol**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd i Ddydd Iau 5 Tachwedd, 7.30pm – 9.30pm. Ar agor bob nos Fawrth a nos Iau, 7pm – 9pm, mis Medi – mis Ebrill.*
Dewch i ymuno yn yr hwyl. Mae gennym sesiynau dawnsio, pêl droed, crefft a choginio. Croeso i bawb ddod am hwyl ac i chwarae gemau. Mae'r staff yn barod i'ch cyfarfod!
**Ffôn:** Edna A Jones 01286 679918
**E-bost:** ednaj@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

## PWLLHELI

**Canolfan Frondeg**
Ala Uchaf, Pwllheli LL53 5REE
**Noson Gymdeithasol Gymunedol**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd i Ddydd Iau 5 Tachwedd, 7pm – 9.30pm.*
Dewch i ymuno â ni! Rydym yn cynnal noson gymunedol gyda phedwar clwb ieuenctid (Abererch, Pwllheli, Trefor ac Y Ffor) yn dod ynghyd i gynnal gweithdy gerddoriaeth yn ogystal â sesiynau crefft a choginio. Bydd digonedd o wybodaeth ar gael felly dewch draw i'n gweld!
**Ffôn:** Edna A Jones 01286 679918
**E-bost:** ednaj@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

## TUDWEILIOG

**Canolfan Gymunedol Tudweiliog**
Tudweiliog, Gwynedd
**Noson Gymdeithasol Gymunedol**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9pm. Ar agor bob nos Fawrth, 7pm – 9pm, mis Medi – mis Ebrill.*
Rydym yn glwb gwledig ac mae gennym sesiynau crefft, chwaraeon a choginio. Mae'r staff yn barod i'ch cyfarfod ac i gymryd rhan yn yr hwyl. Dewch i ymuno â ni!
**Ffôn:** Edna A Jones 01286 679918
**E-bost:** ednaj@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

## CANOLFANNAU IEUENCTID CAERNARFON, PWLLHELI A BLAENAU FFESTINIOG

**Theatr Fforwm**
*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Gwener 6 Tachwedd, 7.30pm – 9pm.*
Theatr ryngweithiol sydd wedi ei selio ar broblemau a thabŵ cymdeithas yw theatr fforwm. Rhoddir y cyfle i bobl gyfleu eu safbwyntiau ar amrywiaeth o broblemau megis digartrefedd, cyffuriau ac iechyd rhyw yn ogystal â thrafod materion cyfoes a phynciau llosg fel gwleidyddiaeth a chyfraith gwlad. Cydnabyddir Theatr Fforwm gan y Cenhedloedd Unedig fel dull positif o "Newid Cymdeithasol".
**Ffôn:** Osian Elis, Mair Richards 01286 671153
**E-bost:** mair@gisda.co.uk
www.gisda.co.uk

# POWYS

## MACHYNLLETH

**Adain Ieuenctid Bro Ddyfi**
Ysgol Uwchradd Machynlleth, Machynlleth, Powys SY20 8DR
**Gŵyl Lanterni Helyg**
*Dydd Sadwrn 31 Hydref, 6pm – 8pm. Digwyddiad blynyddol.*
Dewch i ymuno yng Ngorymdaith Gŵyl Goleuni Lanterni Helyg drwy'r stryd fawr a draw i'r Plas ac yna arddangosfa tân gwyllt. Dewch â'ch lantern eich hun i gymryd rhan yn yr orymdaith.
**Ffôn:** Cathy Evans 01654 702794
**E-bost:** cathy.evans@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

**Noson Hawaiaidd**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7pm – 9pm.*
Yn dilyn llwyddiant y llynedd rydym yn cynnal Noson Hawaiaidd arall!! Gallwch wneud eich hoff goctel di-alcohol, a gweld pa mor isel y gallwch fynd o dan y polyn limbo!! Gwobr am y corff sy'n plygu orau a'r crys mwyaf llachar.
**Ffôn:** Cathy Evans 01654 702794
**E-bost:** cathy.evans@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

# SIR Y FFLINT

## AR DRAWS SIR Y FFLINT

**Gwahanol Ysgolion a Chlybiau Ieuenctid yn Sir y Fflint**
**Prosiect Iechyd Rhywiol**
*Dydd Sul 1 Tachwedd, 7pm – 9.30pm. Yn rhedeg yn barhaol drwy gydol y flwyddyn.*
Mae Cynllun Cerdyn C Ieuenctid a'r Gymuned Sir y Fflint yn cynnig mynediad hawdd a chyflym i gondomau a gwybodaeth am ddim i bobl ifanc rhwng 13 a 25. Cynigir y gwasanaeth mewn dull urddasol a chyfrinachol o fewn amgylchedd diogel. Mae'r Cynllun Cerdyn C yn gweithredu o'r mwyafrif o Glybiau Ieuenctid Sir y Fflint bob nos.
**Ffôn:** Bev Baines 01352 753914
**E-bost:** bev.baines@flintshire.gov.uk

### Taith Caru, Cwtsh a Haint

*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Gwener 6 Tachwedd, 7pm – 9.30pm. Sesiwn gyda'r nos mewn Clybiau Ieuenctid Llun-Gwener.*

Dewch i wrando ar eich Gweithwyr Ieuenctid Iechyd Rhywiol, Bev a Katie, ar Daith 'Caru, Cwtsh a Haint' Sir y Fflint! Dewch i wybod am: bod yn hapus mewn cariad, yn iach wrth gwtsho – ac yn ddiogel rhag yr hen heintiau bach yna. Ymunwch â ni i ddathlu Wythnos Gwaith Ieuenctid 2009. Gofynnwch i'ch Gweithwyr Ieuenctid pryd fydd y daith yn dod i'ch ardal chi.

**Ffôn:** Bev Baines 01352 753914 / 07554 438436
**E-bost:** bev.baines@flintshire.gov.uk

## BRYCHDWN

**Canolfan Siopa Parc Brychdwn**
Chester Road, Brychdwn, Sir y Fflint CH4 0DE

### Portread theatrig o ddeg hawl sy'n ymgorffori pedair colofn Gwaith Ieuenctid

*Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 10am – 3pm.*

Bydd pobl ifanc yn portreadu mewn modd theatrig y 10 hawl ac yn egluro sut y maent yn ffitio 4 colofn gwaith ieuenctid; bydd y rhain yn cael eu gwneud fel senarios unigol bychain o amgylch y ganolfan siopa. Bydd gennym bwynt arddangos canolog a fydd yn gweithredu fel ein prif bwynt gwybodaeth.

**Ffôn:** Sheila Petrie, Sue Hibbert 01352 719608

## CAERWYS

**Canolfan Gymunedol Caerwys**
Neuadd y Dre, Stryd y De, Caerwys, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 5BB

### Noson codi arian

*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 6.30pm – 9.30pm.*

Noson i godi arian ar gyfer Rhaglen Weithgareddau Haf 2010. Dewch i ymuno yn yr hwyl a helpu i godi llawer o arian

**Ffôn:** Mick Holt 01352 733469
**E-bost:** mick.holt@flintshire.gov.uk

## GRONANT

**Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Gronant**
Lôn y Pentref, Gronant, Sir y Fflint, LL19 9TP

### Her adeiladu tîm

*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 6pm – 9pm*

Heriwch ni! Gemau cystadleuol i adeiladu tîm, gyda'r bwriad o herio pobl ifanc yn erbyn Clybiau Ieuenctid cymdogol.

**Ffôn:** Mick Holt 01352 733469
**E-bost:** mick.holt@flintshire.gov.uk

## HOLYWELL

**Canolfan Ieuenctid a Chymuned Holway**
Lôn Moor, Holway, Treffynnon CH8 7DW

### Cystadleuaeth Coginio Holway

*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9.30pm. Un noson yn unig.*

Noson o hwyl a dysgu! Cystadleuaeth goginio rhwng pobl ifanc, cwis ac wedyn cyfle i fwyta beth rydych wedi ei baratoi. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Jackie Jones 01352 715170
**E-bost:** jacqueline.jones@flintshire.gov.uk

### Noson Gyflwyno

*Dydd Iau 5 Tachwedd, 7pm – 9.30pm. Un noson yn unig.*

Noson gyflwyno i bobl ifanc sy'n byw yn Holway i ddathlu eu llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Jackie Jones 01352 715170
**E-bost:** jacqueline.jones@flintshire.gov.uk

**Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Maes-glas**
Lôn yr Ysgol, Maes-glas, Treffynnon CH8 7HR

### We're All In This Together

*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9pm. Bydd dyddiadau ar gyfer sioeau ychwanegol yn cael eu hysbysebu fis Hydref 2009.*

Mae Grŵp Drama Geto Maes-glas yn cyflwyno 'We're All In This Together', sydd wedi'i addasu o 'High School Musical', fydd yn cael ei berfformio ar y 3ydd o Dachwedd, gyda noson agoriadol i bwysigion. Thema fywiog fydd yn cynnwys canu a dawnsio.

**Ffôn:** Greenfield Ghetto Drama Group 07876 391801
**E-bost:** sheila.petrie@flintshire.gov.uk

### Grŵp Drama Geto Maes-glas

*Dydd Llun 1 Rhagfyr i Ddydd Mawrth 1 Mawrth, 6.45pm – 9.15pm. Bob dydd Mawrth.*

Grŵp drama cymunedol yw Grŵp Drama Geto Maes-glas ac mae'n cael ei gyd-drefnu gan grŵp o bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc. Rydym yn ysgrifennu, yn cynhyrchu ac yn cyfarwyddo ystod o gynyrchiadau addysgol ar gyfer cymuned ehangach. Os ydych rhwng 11 a 21 oed beth am ymuno.

**Ffôn:** Sheila Petrie 07876 391801
**E-bost:** sheila.petrie@flintshire.gov.uk

**Clwb Ieuenctid Bryn Garth**
Ysgol Bryn Garth, Penyffordd, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 9HG

### Her Chwaraeon i'r Gymuned

*Dydd Llun 2 Tachwedd, 6pm – 9pm.*

Dewch i ymuno â ni mewn nifer o heriau chwaraeon!

**Ffôn:** Mick Holt 01352 733469
**E-bost:** mick.holt@flintshire.gov.uk

## PENARLÂG

**Canolfan Ieuenctid a Chymuned Penarlâg**
Groomscroft, Penarlâg CH5 3EL

### Cystadleuaeth ffotograffiaeth

*Dydd Sul 1 Tachwedd i Ddydd Sadwrn 7 Tachwedd, 12pm – 9pm. Wythnos Gwaith Ieuenctid yn unig.*

Dewch i ymuno yn ein cystadleuaeth Ffotograffiaeth sy'n seiliedig ar y thema 'Fy Nghlwb Ieuenctid yn cymryd rhan yn Wythnos Gwaith Ieuenctid'.

**Ffôn:** Aileen Williams 01244 535621 / 07876 390610
**E-bost:** aileen.williams@flintshire.gov.uk

### Pecynnau Gweithgareddau Difyr

*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Gwener 6 Tachwedd, 6pm – 9.30pm.*

Cwisiau, posau a gemau ar faterion sy'n effeithio eich bywydau. Dewch i ymuno yn yr hwyl yn y digwyddiad gwych hwn!

**Ffôn:** Aileen Williams 01244 535621 / 07876 390610
**E-bost:** aileen.williams@flintshire.gov.uk

## SALTNEY

**Canolfan Ieuenctid Saltney**
Lôn Sandy, Saltney CH4 0AE

### Wythnos Bwyta'n Iach

*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Iau 5 Tachwedd, 12pm – 1pm. Yn rhedeg yn ystod y tymor yn unig.*

Dewch i gymryd rhan yn Wythnos Bwyta'n Iach i hybu ffordd o fwy mwy iachus ymysg pobl ifanc.

**Ffôn:** Julie Thomas 01244 680386
**E-bost:** julie.thomas@flintshire.gov.uk

### Noson newid rôl

*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7pm – 9.30pm.*

Dewch i weld pobl ifanc yn cymryd yr awenau a rhedeg y ganolfan gyda staff yn ymuno fel aelodau!

**Ffôn:** Julie Thomas 01244 680386
**E-bost:** julie.thomas@flintshire.gov.uk

**Ysgol Uwchradd Dewi Sant / Ysgol Maes Hyffred**
Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Saltney, Lôn Sandy, Saltney CH4 0AE

### Cynllun Cyfeillion 6ed Dosbarth

*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Gwener 18 Rhagfyr, 1.30pm – 3.30pm. Yn rhedeg yn ystod y tymor yn unig.*

Rhaglen o weithgareddau i bobl ifanc gydag anghenion arbennig wedi'u cefnogi gan gyfeillion 6ed dosbarth.

**Ffôn:** Julie Thomas 01244 680386
**E-bost:** julie.thomas@flintshire.gov.uk

## Y FFLINT

**Ysgol Uwchradd y Fflint**
Maes Hyfyrd, Y Fflint, Sir y Fflint CH6 5LL

### Sioe deithiol

*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Gwener 6 Tachwedd, 12pm – 1pm. Yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid.*

Sioe deithiol syn hyrwyddo beth sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc rhwng 11 a 25, dan arweiniad y Gwasanaeth Ieuenctid a Chymunedol ac asiantaethau partner sydd â gwasanaethau i'w cynnig i bobl ifanc o fewn yr oedran yma.

**Ffôn:** Mick Holt 01352 733469
**E-bost:** mick.holt@flintshire.gov.uk

**Parc Sglefyrddio'r Fflint**
Clwb Ieuenctid y Fflint, Pafiliwn y Fflint, Stryd Iarll, Y Fflint, Sir y Fflint CH6 5E

### Sglefrathon

*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 6pm – 9pm.*

Digwyddiad cymdeithasol ffantastig a chyfle i bob sglefrwyr arddangos ei sgiliau. Yn cynnwys barbeciw!

**Ffôn:** Barry Guest 01352 734690 / 07748 683802
**E-bost:** barry.guest@flintshire.gov.uk

**Canolfan Ieuenctid a Chymunedol y Fflint**
Pafiliwn y Fflint, Stryd Iarll, Y Fflint, Sir y Fflint CH6 5ER

### Her adeiladu tîm

*Dydd Llun 2 Tachwedd, 6pm – 9pm.*

Heriwch ni! Gemau cystadleuol i adeiladu tîm, gyda'r bwriad o herio pobl ifanc yn erbyn Clybiau Ieuenctid cymdogol.

**Ffôn:** Mick Holt 01352 733469
**E-bost:** mick.holt@flintshire.gov.uk

## YR WYDDGRUG

**Tŷ Clwb Bryn Gwalia**
Parkfields, Ash Grove, Yr Wyddgrug CH7 1RU

### Nosweithiau Creadigol

*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 9pm.*

Dewch i weld a chlywed gan artistiaid preswyl yn sgwrsio am nifer o brofiadau creadigol a cherddorol, gyda barbeciw, coelcerth a band dur.

**Ffôn:** Stephen Robertson 01352 705933
**E-bost:** stephen.robertson@flintshire.gov.uk

**Clwyd Theatr Cymru**
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1YA
**Canol Llwyfan – Cynllun Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 6.30pm – 9pm.*
Dewch i weld drama sy'n cael ei pherfformio gan bobl ifanc lleol a chymryd rhan mewn trafodaethau fel y gallwch CHI ddylanwadu ar wasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Sir y Fflint. Yn agored i bobl ifanc a'r rheiny sydd am weithio gyda nhw. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan.
**Ffôn:** Emma Jones 01352 704147
**E-bost:** emma_jones@flintshire.gov.uk
www.youngflintshire.co.uk

**Gwasanaeth Ieuenctid a Chymunedol Sir y Fflint**
Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Glanrafon, Ffordd Glanrafon, Yr Wyddgrug CH7 1PA
**Addysg Rhyw a Pherthnasedd**
*Yn rhedeg o ddydd Sadwrn 24 Hydref 9am – 7.30pm*
*Yn ystod tymor ysgol yn unig mewn ysgolion a cholegau.*
Mae prosiect Rhyw a Pherthnasedd Ieuenctid a Chymuned Sir y Fflint yn rhaglen gynhwysfawr sy'n cael ei gweithredu led y wlad. Mae'n codi ymwybyddiaeth o iechyd rhywiol ymhlith pobl ifanc 11-25 oed. Mae'r prosiect yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gasglu gwybodaeth a datblygu sgiliau y byddant ei angen i ymddwyn fel dinasyddion deallus a chyfrifol.
**Ffôn:** Bev Baines 01352 753914 / 07554 438436
**E-bost:** bev.baines@flintshire.gov.uk

**Tŷ Clwb, Yr Wyddgrug**
Park Avenue, Bryn Gwalia, Yr Wyddgrug CH7 1RY
**Digwyddiad Celfyddydau Creadigol / Diwylliannol**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 6pm – 9.30pm.*
Dewch i ymuno yn ein gweithdai creadigol sy'n cael eu rhedeg gan artistiaid proffesiynol. Bydd y digwyddiad yn cynnwys barbeciw, coelcerth, ac ystod o weithgareddau diwylliannol Jamaicaidd, yn ogystal â rapio / MCio a DJio.
**Ffôn:** Steve Robertson 01352 705933
**E-bost:** stephen.robertson@flintshire.gov.uk

## LLEOLIADAU AMRYWIOL

**Prosiect Cymorth Cyflawniad 14-16 Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint**
Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Treffynnon, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 7TQ
**Diwylliant a Threftadaeth Gymreig**
*Dydd Llun 2 Tachwedd – Ddydd Gwener 27 Tachwedd.*
Cestyll a llefydd eraill o ddiddordeb, ymweliadau gan gynnwys diwydiant presennol ac o'r gorffennol, sesiynau Cymraeg a chyfle i wneud llwyau caru yng ngweithdy turniwr pren lleol.
**Ffôn:** Jonathan Parry 01352 719608
**E-bost:** jonathan_parry@flintshire.gov.uk

# WRECSAM

## LLEOLIADAU AMRYWIOL AR DRAWS WRECSAM

Am restr ddiweddar o ddigwyddiadau sy'n cymryd lle yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid ewch i **www.wrecsamifanc.co.uk**
**Wythnos Gwaith Ieuenctid – Sut allwch chi elwa?**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd i Ddydd Sadwrn 7 Tachwedd.*
Dewch i ddarganfod beth sydd gan y Sector Gwaith Ieuenctid i'w gynnig i chi yn Wrecsam. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam a gwasanaethau ieuenctid y sector wirfoddol yn gweithio ynghyd i gynnig ystod o weithgareddau i chi. Os ydych erioed wedi cwyno eich bod wedi diflasu – gallai hyn fod yn gyfle gwych i chi ddarganfod pa fath o weithgareddau sydd ar gael, gan gynnwys cerddoriaeth, chwaraeon, celf, gweithgareddau awyr agored, cyfnewidfeydd rhyngwladol neu gyfle i leisio barn. Edrychwch ar wefan Wrecsam Ifanc am ddiweddariad ar y gweithgareddau. Gobeithio na fydd rheswm i fod wedi diflasu byth eto!
**Ffôn:** Siop Wybodaeth 01978 358900
**E-bost:** infoshop@wrexham.gov.uk
www.wrecsamifanc.co.uk

# YNYS MÔN

## AMLWCH

**Clwb Ieuenctid Amlwch**
Hyfforddiant Parys, Stad Ddiwydiannol, Amlwch LL68 9BQ
**Amlwch Youth Club**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7pm – 9pm. Clwb yn cyfarfod bob nos Lun a nos Fercher 7pm – 9pm (11-19 oed).*
Dewch draw i'n noson agored i gysylltu gyda'n ffrindiau yn Sankwia yn ein Prosiect Gambia. Ffilm a lluniaeth, croeso i bawb.
**Ffôn:** Wendy Thomas 01407 831112 / 07900 816139
**E-bost:** wendy@wendythomas.wanadoo.co.uk

## BODFFORDD

**Clwb Ieuenctid Bodffordd**
Ysgol Gynradd Bodffordd, Llangefni LL77 7LZ
**Clwb Ieuenctid Bodffordd**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 7pm – 9pm. Clwb yn cyfarfod bob nos Fercher 7pm-9pm (11-19 oed).*
Dewch i ymuno yng ngweithgaredd ein clwb yn ein noson agored. Darperir lluniaeth. Croeso i aelodau o'r gorffennol, presennol a'r dyfodol a rhieni!
**Ffôn:** Elwyn Jones 01248 752938
**E-bost:** ewxed@ynysmon.gov.uk

## BRYNGWRAN

**Clwb Ieuenctid Bryngwran**
Ysgol Gymuned Bryngwran, Stryd Fawr, Bryngwran, Caergybi LL65 3PP
**Clwb Ieuenctid Bryngwran**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9pm. Clwb yn cyfarfod bob nos Mawrth 7pm – 9pm (11-19 oed).*
Dewch draw i ymuno yn ein noson agored gyda chystadlaethau, crefftau a raffl!
**Ffôn:** Bethan Williams 07500 100294
**E-bost:** bjwed@ynysmon.gov.uk

## LLANFAIRYNGHORNWY

**Clwb Ieuenctid Llanfairynghornwy**
Neuadd Bentref, Llanfairynghornwy, Ynys Môn
**Clwb Ieuenctid Llanfairynghornwy**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9pm. Clwb yn cyfarfod bob nos Lun a nos Iau 7pm – 9pm (11-19 oed).*
Ymunwch yng ngweithgareddau ein noson glwb – sesiynau crefft, coginio, a llawer mwy. Cystadlaethau pŵl yn erbyn rhieni/ffrindiau a llawer o wobrau i'w hennill
**Ffôn:** Ruth Kennedy 01248 752938
**E-bost:** ewxed@ynysmon.gov.uk

## LLANGEFNI

**Canolfan Hamdden Plas Arthur**
Clwb Ieuenctid Llangefni, Adain Ieuenctid, Canolfan Hamdden Plas Arthur, Penrallt, Llangefni LL77 7QX
**Clwb Ieuenctid Llangefni**
*Dydd Llun 2 Tachwedd , 7.00pm – 9.00pm . Clwb yn cyfarfod bob nos Mawrth 7pm – 9pm a nos Iau 7.30pm-9.30pm (12-19 oed).*
Noson agored i Wythnos Gwaith Ieuenctid i chi gael gweld y Bws Ieuenctid, a chyfle i weld yr adnoddau a'r gweithgareddau sydd ganddo i'w gynnig – felly os mai am alcohol, rhyw, cyffuriau neu roc a rôl mae'r cwestiwn, bydd y wybodaeth gennym yn rhywle!
**Ffôn:** Elwyn Jones 01248 752938
**E-bost:** ewxed@ynysmon.gov.uk

# CYMRU GYFAN

**Eich Llais, Eich Dewis – Gweithdai cymryd rhan**
*Dydd Sul 1 Chwefror i Ddydd Mawrth 1 Rhagfyr, 9am – 11am.*
Gallwn ddod draw at eich grŵp pryd bynnag rydych yn cyfarfod fel arfer.
"Dim byd i neud!" – "Mae'n &%@! fan hyn" – "a sneb yn gwrando!" Gweithdy 2 awr yw Eich Llais, Eich Dewis a all eich helpu i ddod i wybod mwy am gael rhywun i wrando ar eich barn a'r dewisiadau yn eich grŵp ieuenctid lleol, eich ysgol neu weithgaredd newydd arall. Mae'n gyfle i ganfod mwy am gymryd rhan drwy gemau a gweithgareddau ac mae 'freebies' ar gael hefyd. Os nad oes neb yn gwrando arnoch chi, dewch draw! Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Ness, Sionedwyn, Nancy 01792 466231
**E-bost:** admin@dynamix.ltd.uk
www.dynamix.ltd.uk
**Cyswllt:** Dynamix Ltd, Uned 4D, Ffordd y Cwm, Hafod, Abertawe, SA1 2AY

# CLYBIAU IEUENCTID AR DRAWS CYMRU

**Taith Fforwm Ieuenctid Byddar DEFFO**
*Yn rhedeg yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid yn unig.*
Byddwn ni (Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain a fforwm ieuenctid DEFFO) yn hoffi cwrdd â chi (gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc) led Cymru er mwyn rhannu ein syniadau a'r sut y gallem gael ein cynnwys yn eich gwasanaethau, rhannu syniadau a chefnogi. Cewch gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel blasu Iaith Arwyddion Prydain, chwaraeon a dod i'n hadnabod (ieuenctid byddar a gweithwyr ieuenctid). Dewch draw i gael hwyl gyda'n gilydd!
Am wybodaeth bellach ynglŷn â lleoliadau, cysylltwch â Cathie Robins-Talbot yn:
Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru, Canolfan Diwylliant BSL, 47 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0AD.
**Ffôn:** Cathie Robins-Talbot 08451 302851
**E-bost:** cathier-t@bda.org.uk
www.bda.org.uk

Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys neu argaeledd y digwyddiadau a hyrwyddir yn y canllaw hwn, ac er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl wybodaeth a gyflenwir yn gywir, argymhellwn eich bod yn cysylltu â'r trefnwyr i gadarnhau'r dyddiadau, amseroedd ac argaeledd cyn cychwyn teithio i ddigwyddiad.